

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 8 Mawrth 2016

Amser y cyfarfod: 13.00

(320)v5

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil Drafft Llywodraeth a Chyfreithiau yng Nghymru

(30 munud)

4 Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016

(15 munud)

NDM5985 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016 yn cael eu llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2016.



Dogfennau Ategol

[Rheoliadau Adnoddau Dŵr \(Rheoli Llygredd\) \(Storio Olew\) \(Cymru\) 2016](#)

[Esboniadol Memorandwm](#) (Saesneg yn unig)

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#) – *Dim pwyntiau adrodd*

5 Cyfnod 4 y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)

(15 munud)

NDM5997 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru).

Dogfennau Ategol

[Bil Casglu a Rheoli Trethi \(Cymru\)](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

6 Dadl ar Ail Gyllideb Atodol 2015–16

(30 munud)

NDM5967 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015–16 a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e–bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 9 Chwefror 2016.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- i. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;
- ii. yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;

iii. cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;

iv. cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a

v. cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Mae'r wybodaeth ychwanegol isod wedi'i darparu i'r Aelodau:

– nodyn yn egluro'r prif wahaniaethau rhwng y cynllun hwn a'r rhai blaenorol.

Dogfennau Ategol

[Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015–16](#)

[Adroddiad y Pwyllgor Cyllid](#)

7 Dadl ar y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2016–17

(60 munud)

NDM5986 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016–2017 a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar 1 Mawrth 2016.

Troednodyn:

Yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20.28, mae'r Gyllideb Flynyddol yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

1. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

2. yr adnoddau y cytunodd y Trysorlys arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru am y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;
3. cysoni rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau i'w hawdurdodi i'w defnyddio yn y cynnig;
4. cysoni rhwng yr amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o'r Gronfa yn y cynnig; a
5. cysoni rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Darparwyd yr wybodaeth atodol ganlynol i'r Aelodau:

- Nodyn Esboniadol ar y newidiadau rhwng cynigion y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Flynyddol.

Mae Cynigion y Gyllideb Flynyddol 2016–17 i'w gweld yn y linc canlynol:

<http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10600/gen-ld10600-w.pdf>

Dogfen Ategol

[Cyllideb Llywodraeth Cymru 2016–17](#)

8 Cyfnod pleidleisio

9 Cyfnod 3 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

(240 munud)

Caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 y cytunwyd gan y Cynulliad ar 23 Chwefror 2016.

Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:

1. Dileu'r cyfyngiadau ar ddefnyddio dyfeisiau mewnanadlu nicotin

3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 24, 25,
26, 2, 1

2. Mangreoedd a cherbydau di-fwg

56, 57, 60, 61, 62, 63, 64, 68, 69, 70, 71, 72, 73, 74, 75, 76, 77, 125, 127, 128,
131, 134, 138, 140, 146, 96, 51

3. Mangreoedd a cherbydau di-ddyfais mewnanadlu nicotin

58, 59, 65, 66, 67, 99, 100, 101, 102, 103, 104, 107, 108, 109, 110, 111, 112,
113, 114, 115, 118, 119, 120, 121, 123, 147, 95, 52, 53, 54

4. Adolygu ac adrodd: dyfeisiau mewnanadlu nicotin

27

5. Cynigion ar gyfer mangreoedd ac ardaloedd di-ddyfais mewnanadlu nicotin ychwanegol, ac esemptiadau perthnasol

105, 106, 116, 117, 122, 124, 126, 129, 130, 132, 133, 135, 136, 137, 139,
141, 142, 143, 144, 145, 97

6. Cofrestr o fanwerthwyr tybaco a chynhyrchion nicotin

78, 79, 80, 81

7. Triniaethau arbennig a rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff: amrywiol

82, 83, 84, 85, 86, 87, 88, 148

8. Ystyr 'triniaethau arbennig'

28, 29, 30, 31, 32, 35, 36, 37, 38, 39

9. Y drosedd o roi triniaeth arbennig i bersonau meddw

33, 34

10. Gwasanaethau fferyllol

40, 89, 41

11. Darparu toiledau

42, 43, 44, 90, 91, 45, 46, 47, 149, 49

12. Aseidiadau o'r effaith ar iechyd

92, 93, 94, 98, 55, 50

Dogfennau Ategol

[Bil Iechyd y Cyhoedd \(Cymru\)](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

[Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli](#)

[Grwpio Gwelliannau](#)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.00, Dydd Mercher, 9 Mawrth
2016

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Mawrth 2016 i'w hateb ar [8 Mawrth 2016](#)

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gofyn i [Brif Weinidog Cymru](#)

1. [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol y GIG yng Nghymru? OAQ(4)2755(FM)
2. [Mohammad Asghar \(Dwyrain De Cymru\)](#): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd ymateb ambiwlansys yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)2752(FM)
3. [Altaf Hussain \(Gorllewin De Cymru\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynnig ynghylch bargaen ddinesig bae Abertawe? OAQ(4)2757(FM)
4. [Elin Jones \(Ceredigion\)](#): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Ngheredigion? OAQ(4)2758(FM)W
5. [Gwenda Thomas \(Castell-nedd\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru? OAQ(4)2751(FM)
6. [Lindsay Whittle \(Dwyrain De Cymru\)](#): Faint o arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fuddsoddi mewn denu Aston Martin i Sain Tathan? OAQ(4)2766(FM)
7. [Bethan Jenkins \(Gorllewin De Cymru\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfranogiad Llywodraeth Cymru ym mhrosiect twnnel y Rhondda? OAQ(4)2754(FM)
8. [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth ffonau symudol yng nghefn gwlad? OAQ(4)2764(FM)W
9. [David Rees \(Aberafan\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru? OAQ(4)2759(FM)

10. [Paul Davies \(Preseli Sir Benfro\)](#): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella sut y cyflenwir gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(4)2750(FM)

11. [Mike Hedges \(Dwyrain Abertawe\)](#): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer safonau ysgolion yng Nghymru? OAQ(4)2753(FM)

12. [Nick Ramsay \(Mynwy\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisiau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r economi wledig? OAQ(4)2756(FM)

13. [Jenny Rathbone \(Canol Caerdydd\)](#): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo twf gwyrdd yng Nghymru? OAQ(4)2767(FM)

14. [Christine Chapman \(Cwm Cynon\)](#): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i leihau effeithiau camddefnyddio alcohol yng Nghymru? OAQ(4)2760(FM)

15. [William Powell \(Canolbarth a Gorllewin Cymru\)](#): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ystad y GIG yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)2765(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar [dudalen y Cyfarfod Llawn](#)

Dydd Mawrth 15 Mawrth 2016 a dydd Mercher 16 Mawrth 2016

Toriad: Dydd Llun 21 Mawrth 2016 – Dydd Mawrth 5 Ebrill 2016

Diddymiad y Cynulliad: 6 Ebrill 2016 – 5 Mai 2016

.....

Dydd Mawrth 15 Mawrth 2016

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân: (cyfanswm o 50 munud)
 - Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) (Rhif 2) 2016 (10 munud)
 - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 (10 munud)
 - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 (10 munud)
 - Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016 (10 munud)
 - Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Darpariaethau Canlyniadol) 2016 (10 munud)
- Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (15 munud)
- Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd (Hyrwyddo Sgoriau Hylendid Bwyd) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar gyfer y Bil Menter mewn perthynas â darpariaethau Cod Rheoleiddwyr ac Awdurdod Sylfaenol (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y darpariaethau ym Mil Mewnfudo'r DU mewn perthynas â gofynion iaith Gymraeg ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus (15 munud)

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandum rhif 4) ar gyfer y darpariaethau yn y Bil Menter sy'n ymwneud â Swyddi Sector Cyhoeddus: Cyfyngu ar Daliadau Ymadael (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai a Chynllunio sy'n ymwneud â Darpariaethau Prynu Gorfodol ac ati (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y darpariaethau ym Mil Menter y DU mewn perthynas â rhannu data ar gyfer prentisiaethau (30 munud)
- Dadl ar y cynllun addasu Tai (60 munud)

Dydd Mercher 16 Mawrth 2016

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)
- Cyfnod 4 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (15 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cynnig i benodi Comisiynydd Safonau (5 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y tair eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)
 - Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad (5 munud)
 - Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26A mewn perthynas â Deddfau Preifat y Cynulliad a Rheol Sefydlog 26B mewn perthynas â Deddfau Hybrid y Cynulliad (5 munud)
 - Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog 18 a 30A mewn perthynas â Gwelliannau Amrywiol (5 munud)
 - Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei ymchwiliad i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (60 munud)

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ei ymchwiliad i Adolygiad Siarter y BBC (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Dyfodol ynni craffach i Gymru? (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)